



Ystafell 27, Prifysgol Cymru
Cofrestrfa'r Brifysgol, Rhodfa'r Brenin Edward VII
Caerdydd. CF10 3NS
029 2037 6956
Wales@sd-commission.org.uk
www.sd-commission.org.uk/cymru

4 Hydref 2010

Jane Davidson AC
Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai
Llywodraeth Cynulliad Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Annwyl Jane,

Polisi Cynllunio Cymru Adran 12.8 Ymgynghoriad ar Gynllunio ar gyfer Ynni Adnewyddadwy

- Mae'r cynigion polisi hyn yn rhan hollbwysig o gyflawni rhwymedigaethau Cymru, a byddant yn helpu i osod Cymru ar wahân ar y llwyfan rhyngwladol.
- Rhaid i gymunedau fod wrth wraidd datblygu'r targedau a'r cynlluniau ar gyfer cyfleusterau adnewyddadwy yn y dyfodol.
- Gall timau presennol Cynllun Gofodol Cymru gyflwyno'r polisi hwn yn ofodol, er mwyn helpu awdurdodau lleol i gydweithio i ddatrys un o'r problemau pwysicaf rydym yn eu hwynebu.

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn gefnogol iawn i'r cynigion hyn i alluogi system gynllunio gryfach ar gyfer datblygu'r cyfleusterau cynhyrchu ynni adnewyddadwy a fydd yn hanfodol os yw Cymru i gyflawni ei rhwymedigaethau ar lwyfan y byd.

Cwestiwn 1 – Graddfeydd

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi'r trothwyon graddfa a awgrymwyd yn yr ymgynghoriad at ddibenion cynllunio, gan gydnabod y bydd y rhain yn sicrhau bod Cymru'n cyfateb i drothwyon tebyg ledled y Deyrnas Unedig.

Yr unig rybudd y caredm ei roi yw y dylid gofalu wrth ddefnyddio'r trothwyon hyn yn ystod prosiectau. Ni ddylai prosiectau gofodol strategol, a fyddai'n cael effaith sylweddol ar ardal leol, dderbyn cefnogaeth annigonol yn anfwriadol gan randdeiliaid eraill yn y system gynllunio oherwydd nad ydynt yn croesi'r trothwyon strategol. Nid yw hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â'r system gynllunio, ond byddem yn pryderu pe na bai prosiectau pwysig yn derbyn cefnogaeth ddigonol oherwydd y trothwyon hyn.



Cwestiwn 2 – Targedau lleol

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy hefyd yn cefnogi fframwaith sy'n pennu targedau i helpu i sbarduno'r broses o fabwysiadu technoleg cynhyrchu adnewyddadwy. Fodd bynnag, byddem yn awgrymu rhoi sylw i nifer o ystyriaethau pwysig wrth lunio'r targedau hyn.

Cyn unrhyw waith i bennu targedau, byddem yn annog paratoi data sy'n darparu gwaelodlin cywir o ran y technolegau adnewyddadwy sydd eisoes wedi'u gosod, yn cael eu datblygu, neu wedi derbyn caniatâd cynllunio. Heb ddata o'r fath, a heb ddiweddarau'r wybodaeth honno'n rheolaidd, bydd y darlun o gynnydd yn aneglur ac yn ddrylyd. Byddai'r data hwn yn helpu i hysbysu'r gwaith o bennu targedau'n lleol, yn ogystal â chynorthwyo wrth greu polisi cenedlaethol. O gael data cywir ac amserol, gallai hefyd gyfrannu at un o gyfres newydd o ddangosyddion cynaliadwyedd. Mae'r argymhelliad hwn wedi'i seilio ar ganfyddiadau'r CDC ei fod yn anodd cael hyd i wybodaeth o safon dda am amlygrwydd gosodiadau cymunedol neu raddfa fach sydd eisoes yn bodoli neu wedi'u cynllunio, a gallai systemau ar y raddfa hon wneud cyfraniad sylweddol at gyrraedd targedau. Dros amser rydym yn argymhell ychwanegu at y data hwn er mwyn cwmpasu nifer a chapasiti'r cyfleusterau sy'n bresennol, yn ogystal â gwybodaeth fwy ansoddol am effeithlonrwydd cynlluniau a'u canlyniadau yn y cymunedau lleol y maent yn eu gwasanaethu.

Gyda'r gwaelodlin hwn, byddem wedyn yn argymhell, cyn dechrau ar y gwaith o ddatblygu targedau, fod ymarferiad ymgynghori rhagweithiol dros ben yn cael ei gynnal, er mwyn gwneud cymunedau lleol yn rhan o'r broses. Rydym ni o'r farn y bydd buddsoddi cryn dipyn o amser yn y lle cyntaf i ymgysylltu â chymunedau, yn enwedig trwy ddulliau sy'n helpu i gysylltu â grwpiau ac unigolion sy'n aml yn cael eu tangynrychioli mewn ymarferion ymgynghori, yn talu ar ei ganfed o ran cefnogaeth i brosiectau wrth iddynt gyrraedd y camau cynllunio a datblygu. Byddem hefyd yn annog rhoi cyfle i gymunedau weld sut gallai cyfleusterau cynhyrchu adnewyddadwy effeithio ar eu cymunedau, trwy weld ac adeiladu darlun o sut olwg sydd ar y technolegau hyn a'u heffeithiau posib ar fywyd cymunedol. Bydd ymgynghori ac ymgysylltu cyn bod prosiectau penodol hyd yn oed wedi cael eu hystyried yn darparu model newydd ar gyfer gwaith y llywodraeth, y gellid disgwyl iddo gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y boblogaeth o gynhyrchu pŵer adnewyddadwy. Yn bwysig, byddai hyn yn arddangos arbedion y gellid eu cyflawni trwy leihau gwrthwynebiadau ac apeliadau cynllunio wedi i brosiectau ddod i fodolaeth.

Y dull a ffafrir gan y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy wrth ddatblygu targedau a dyraniadau fyddai defnyddio grwpiau presennol Cynllun Gofodol Cymru, er mwyn manteisio ar eu dull cydweithredol ac integreiddiol o weithio. Rydym ni o'r farn mai trwy nodi cyfleoedd a phennu targedau ar y cyd, yn ofodol, y gellir datblygu'r ystod fwyaf effeithiol o brosiectau, a bydd hynny'n cryfhau ymhellach rôl timau Cynllun Gofodol Cymru. Rydym hefyd yn teimlo y bydd y dull cydynus hwn yn sbarduno cydweithrediad ymhlith rhanddeiliaid, ac yn osgoi effeithiau nas bwriadwyd yn sgil y farchnad leol mewn gwahanol ardaloedd.

Cwestiwn 3 – Dyraniadau lleol mewn CDLlau

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy yn cefnogi'r dull hwn, ac yn argymhell ei fod yn dilyn yr un model ag a awgrymwyd yn y drafodaeth ar bennu targedau uchod.

Cwestiwn 4 – Meini Prawf Cenedlaethol

Mae'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy hefyd yn cefnogi'r canllawiau i helpu awdurdodau cynllunio lleol i ddod i benderfyniad ynghylch prosiectau ynni adnewyddadwy. Eto, rydym yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â phob rhan o gymunedau yn gynnar er mwyn helpu i osgoi'r perygl y ceir apeliadau cynllunio helaeth a heriau fel mater o



drefn yn achos prosiectau ynni adnewyddadwy, gan ein bod yn teimlo, o'i wneud yn dda, y bydd hyn yn cael effaith bellgyrhaeddol ar feithrin cefnogaeth cymunedau i'r cyfleusterau hyn ac yn helpu i osgoi'r angen am fodolaeth canllawiau o'r fath.

Cwestiwn 5 – Materion eraill

Rydym ni'n credu y bydd y newidiadau arfaethedig hyn i Bolisi Cynllunio Cymru yn gam pwysig tuag at gyflawni ein rhwymedigaethau moesol a statudol yng Nghymru o ran deunyddiau adnewyddadwy, ac y bydd yn cynnal y gwaith o weithredu hynny. O'u cyflawni'n effeithiol, rydym ni o'r farn y bydd y cynigion hyn yn sicrhau newid sylweddol yn agwedd Cymru at gynhyrchu ynni adnewyddadwy, gan osod ein cenedl ni ar wahân. Rydym yn galw ar wleidyddion a swyddogion ar draws adrannau i gydnabod pwysigrwydd y polisi hwn a'r manteision a ddaw yn ei sgil, ac i gydwethio yn y dyfodol i helpu i hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd am ei ddull adnewyddedig o gynhyrchu pŵer.

Yn gywir,

Peter Davies
Comisiynydd Cymru
Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy